Ymddiriedolaeth Natur
**De a Gorllewin Cymru**
Wildlife Trust of
**South & West Wales**

# CODI ARIAN AR GYFER DYFODOL GWYLLT

Yr holl gyngor a'r awgrymiadau sydd eu hangen i godi arian
a diogelu bywyd gwyllt ar gyfer y dyfodol





MIKE ALEXANDER

# MAE EICH PLANED EICH ANGEN CHI

Rydyn ni wedi cyrraedd pwynt creiddiol mewn amser, yng nghanol degawd fydd yn penderfynu ar ein dyfodol ni. Mae ein system cynnal bywyd hanfodol dan fygythiad ac mae natur eich angen chi.

Yn Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, rydyn ni'n ymladd dros Ddyfodol Gwyllt, dyfodol sy'n llawn tirweddau a moroedd ffyniannus. I wneud hyn, rydyn ni'n sefyll yn gyhoeddus dros fywyd gwyllt a'r amgylchedd, yn dylanwadu ar bolisi cadwraeth bywyd gwyllt, yn diogelu ein llefydd gwyllt ac yn ysbrydoli pobl i roi natur wrth galon eu penderfyniadau a'u bywydau eu hunain. Ond, dydyn ni ddim yn gwneud hyn ar ein pen ein hunain.

Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'n holl gefnogwyr sy'n helpu i hyrwyddo newid dros fyd natur gyda ni. O'n gwirfoddolwyr ymarferol, i'r rhai sy'n ein helpu i ledaenu'r gair, codi ymwybyddiaeth ac ymgymryd â gweithgareddau codi arian GWYLLT, rydych chi'n hanfodol yn ein brwydr dros Ddyfodol Gwyllt.



**Ni allem ei wneud heb eich help chi - felly diolch i chi am benderfynu ymuno â ni!**

# CODI ARIAN AR GYFER Y DYFODOL

Rydyn ni'n gobeithio y bydd y canllaw codi arian hwn yn eich helpu chi i ddechrau ar eich anturiaethau codi arian GWYLLT ac ysbrydoli eraill i ymuno â chi.

Os ydych chi'n bwriadu codi arian ar eich pen eich hun neu mewn grŵp, gartref, yn y gwaith, neu yn yr ysgol, ar raddfa fawr neu fach, mae eich cyfraniad codi arian GWYLLT yn ymuno â'n brwydr dros Ddyfodol Gwyllt yng Nghymru.

Ar ôl i chi ddarllen y canllaw hwn ac os ydych chi'n barod i fod yn WYLLT, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ein tagio ni yn unrhyw un o'ch gweithgareddau codi arian GWYLLT ar gyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio'r hashnod #CodwrArianGWYLLT.



DAVID PARKYN

/WildlifeTrustSouthandWestWales
@WTSWW
@wildlifetrustsww



BEN HALL/2020VISION

# CYNNWYS


## Gyda'n gilydd, ar gyfer y dyfodol
Cyflwyniad i'r Ymddiriedolaeth a'n hymgyrch Codwr Arian GWYLLT

## Syniadau GWYLLT a all wneud gwahaniaeth
Syniadau a chyngor ar sut i wneud eich her codi arian WYLLT eich hun

## Un nod, un Dyfodol Gwyllt
Darllenwch am heriau'r codwyr arian GWYLLT 10 oed, Imogen a Mattie

## Hwb, cam a naid dros fywyd gwyllt - eich straeon chi
Cyfarfod â'r bobl sy'n mynd yr ail filltir i ddiogelu bywyd gwyllt a llefydd gwyllt

## Taith gerdded wyllt
Sut mae eich heriau codi arian yn cefnogi ein gwaith cadwraeth hanfodol



**Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru**


**Your #WYLLTFundraiser**

**E-bost** wildfundraiser@welshwildlife.org
**Cyfeiriad** The Nature Centre, Found Rd, Tondu, Bridgend, CF32 0EH
**Rhif Elusen Gofrestredig** 1091562
**Gwefan** www.welshwildlife.org
facebook.com/WildlifeTrustSouthandWestWales
twitter.com/@WTSWW
instagram.com/wildlifetrustsww


Ble bynnag ydych chi yn y DU, mae eich Ymddiriedolaeth Natur yn sefyll dros fywyd gwyllt a llefydd gwyllt yn eich ardal chi ac yn dod â phobl yn nes at natur.


**Golygydd Testun** Madison Bowden-Parry
**Dylunydd** weCREATE


# GYDA'N GILYDD, AR GYFER Y DYFODOL



Gweithio dros ddyfodol o dirweddau a moroedd byw yn Ne a Gorllewin Cymru.

Mae'r ymddiriedolaeth yn rheoli rhai o lefydd gwyllt mwyaf gwerthfawr y rhanbarth ac yn berchen ar tua 110 o warchodfeydd natur ac yn eu rheoli, gan gynnwys ynysoedd Sgomer ac Skokholm. Mae ein safleoedd yn cynnwys ystod eang o gynefinoedd, mae rhai yn fawr, rhai yn fach, ond mae pob un yn arbennig.

Er gwaetha'r warchodaeth, mae ein bywyd gwyllt yn agored i niwed. Mae arwyddion yr argyfwng bioamrywiaeth a hinsawdd ym mhob man, ac mae bywyd gwyllt yn dioddef oherwydd dylanwad dyn.

Tywydd eithafol, dirywiad bioamrywiaeth, y cefnforoedd yn cynhesu a chodi, llygredd ... Mae ein planed ni'n wynebu mwy o fygythiad nag erioed.

## FFEITHIAU:

Ers y 1970au, mae 30% o fywyd gwyllt i'w ganfod mewn llai o lefydd yng Nghymru

Mae 17% o rywogaethau Cymru dan fygythiad o ddifodiant

**Aseswyd 3,902 o rywogaethau gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch Ranbarthol IUCN. Cyflwr Natur 2019.*

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, cynyddodd y rhywogaethau sy'n dangos newidiadau cryf yn eu dosbarthiad o 24% i 46%
Mae bywyd gwyllt Cymru yn mynd drwy newidiadau cyflym o ran dosbarthiad

**Mae cyfle i newid hyn, ond rhaid i ni weithredu nawr!**

## Deall ein hecosystemau morol a bywyd gwyllt



JOHN MACPHERSON

Mae ein timau morol yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion a sefydliadau gwyddonol eraill i gynnal ymchwil ym Mae Ceredigion, ar ynysoedd Sgomer a Skokholm, i gasglu gwybodaeth werthfawr am iechyd bywyd gwyllt morol ac arfordirol yn Ne a Gorllewin Cymru.

## Gweithio mewn partneriaeth i ddod â bywyd gwyllt yn ôl



MARK HAMBLIN

Mae ein timau cadwraeth yn gweithio'n galed i amddiffyn poblogaethau unigryw o fywyd gwyllt brodorol sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys ehangu poblogaethau'r wiwer goch yng nghanolbarth Cymru, ailgyflwyno afancod yn ôl i dirwedd Cymru, a oedd wedi diflannu unwaith oherwydd pwysau dynol, ac atal colli glöyn byw britheg y gors a llygod pengrwn y dŵr.

## Dylanwadu ar bolisi cadwraeth bywyd gwyllt



ANDREW PARKINSON

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i helpu i gynllunio dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant pysgota, arwain ar weithredu brechiadau moch daear yng Nghymru, gweithio ochr yn ochr â swyddog Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt Cymru i fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt yng Nghymru a chynghori perchnogion tir ar sut i reoli eu tir ar gyfer bywyd gwyllt.

## Sicrhau cartref i fywyd gwylly yng Nghymru



LYNDSEY MAIDEN

Mae rhai o'n gwarchodfeydd natur yn cynnwys cynefin prin, gan gynnwys coetir hynafol ail fwyaf Cymru, ffen, llynnoedd, dolydd gwair, arfordir ac ynysoedd, ac mae ein perchnogaeth a'n rheolaeth ar y gwarchodfeydd hyn yn sicrhau bod eu bywyd gwyllt yn cael ei ddiogelu.

**Amddiffyn Bywyd Gwyllt ar gyfer y Dyfodol**



ALEXANDER MUSTARD/2020VISION

# Codwr Arian GWYLLT

**Byddwch yn rhan o'r newid**

Rydyn ni wedi cyrraedd pwynt creiddiol yn adferiad byd natur, ac mae newidiadau cadarnhaol, cynaliadwy o fewn ein cyrraedd. Fodd bynnag, gall canlyniadau ein penderfyniadau presennol ac yn y dyfodol deimlo'n frawychus, ac fel unigolyn, gall fod yn anodd deall a mynd ati i weithredu dros fyd natur a chyfrannu at newid ystyrlon yn ein bywydau o ddydd i ddydd.

Tirweddau a moroedd ffyniannus, atal dirywiad rhywogaethau, diogelu llefydd gwyllt ar gyfer y dyfodol. Dyma beth mae'r Ymddiriedolaeth yn ymladd drosto, a dyma beth mae ein codwyr arian GWYLLT yn ymladd drosto hefyd.

Nod ein hymgyrch Codwr Arian GWYLLT yw darparu ffordd gynhwysol a hygyrch i unrhyw un fod yn rhan o'r ateb. Gyda'n gilydd, gallwn ddangos bod adferiad natur wrth wraidd ein penderfyniadau ein hunain ac y gall ein gweithredoedd unigol wneud byd o wahaniaeth.

Mae nifer o ffyrdd y gallwn ymladd dros Ddyfodol Gwyllt. O gymryd rhan mewn gweithgaredd noddedig i gynnal bore coffi, archwilio ein llecyn lleol, neu gynnal cyngerdd elusennol. Mae pob gweithgaredd codi arian, pob her a phob ceiniog a godir yn helpu'r Ymddiriedolaeth i hyrwyddo newid dros natur.




## Gallwch chi fod yn rhan o'r newid. Gall eich gweithredoedd chi wneud gwahaniaeth.

## Ein Codwyr Arian GWYLLT hyd yma

### Busnesau #CodiArianGWYLLT



Mae Caws Teifi yn fusnes codwr arian GWYLLT ac am bob bloc o'u halloumi organig sy'n cael ei werthu, mae 10% yn cael ei gyfrannu at yr Ymddiriedolaeth!

**Are you a business and would like to fundraise with us?**
**Cysylltwch heddiw ar wildfundraiser@welshwildlife.org**

### Grwpiau #CodiArianGWYLLT


Ffansi ymgymryd â her codi arian gyda'ch ffrindiau? Dim problem! Hyd yn hyn mae ein Codwyr Arian GWYLLT wedi cynnal heriau grŵp, gan gynnwys digwyddiad clwb i redeg Hanner Marathon!



### Heriau #CodwrArianGWYLLT unigol

Os byddai'n well gennych godi arian ar eich pen eich hun, ewch yn WYLLT! Mae ein Codwyr Arian GWYLLT wedi bod yn awyrblymio i godi arian ar gyfer ein gwaith gyda'r wiwer goch yng Nghanolbarth Cymru, wedi ymgymryd â theithiau cerdded GWYLLT ar draws Sir Benfro, 1000 o neidiau pogo y dydd am ddeg diwrnod a heriau 30 Diwrnod Gwyllt!

Mae'r cyfleoedd i godi arian yn ddiddiwedd a chi sy'n penderfynu beth i'w wneud.



## SYNIADAU GWYLLT SY'N GWNEUD GWAHANIAETH

**Syniadau a chyngor GWYLLT ar sut i gwblhau eich her codi arian WYLLT eich hun!**

Mae'r rhan fwyaf o'n codwyr arian GWYLLT yn defnyddio platfformau codi arian ar-lein fel Just Giving, CrowdFunder neu Go Fund Me. Mae'n hawdd sefydlu tudalen codi arian ar-lein, gall eich helpu i gadw trac ar eich nod, ei gwneud yn hawdd i eraill gyfrannu at eich her codi arian ac mae'n creu dolen syml i'w rhannu'n eang ar draws eich sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Cofiwch ein tagio ni gan ddefnyddio'r hashnod #CodwrArianGWYLLT yn eich negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol a rhannwch eich diweddariadau ar eich tudalen codi arian hefyd!

## CODI ARIAN GWYLLT CAM WRTH GAM

### Penderfynwch ar eich her

Oes gennych chi weithgaredd rydych chi'n ei hoffi? Efallai eich bod eisiau herio'ch hun i ddysgu sgil newydd? Rydyn ni'n eich herio chi i fod yn WYLLT a gwneud rhywbeth gwahanol dros fywyd gwyllt.

### Dewiswch y dyddiad

Beth bynnag yw'r her neu'r gweithgaredd, cynlluniwch yn gynnar! Rhowch y dyddiad ar y calendr a dechreuwch baratoi ar gyfer eich her WYLLT!

### Tynnu digon o sylw!

Ar ôl i chi benderfynu ar eich her WYLLT a'i rhoi yn y dyddiadur, ewch ati i greu tudalen codi arian a lledaenu'r gair!



### CERDDED DROS FYWYD GWYLLT

Beth am archwilio'r bywyd gwyllt ar garreg eich drws fel rhan o'ch her? Estynnwch am eich esgidiau ac ymgolli yn rhyfeddodau cudd natur! Os nad ydych chi'n gallu meddwl am her Taith Gerdded Wyllt, beth am gymryd rhan yn ein Taith Gerdded Wyllt Fawr yn yr Hydref? Ymunwch ag eraill ledled y DU i ymgymryd â'r her dros Ddyfodol Gwyllt.

Mwy o wybodaeth yn www.welshwildlife/big-wild-walkwelshwildlife/big-wild-walk

### POBI DROS FYWYD GWYLLT

Beth am gynnal bore coffi GWYLLT? Trefnwch de GWYLLT a gofynnwch i'ch gwesteion addurno eu cacennau GWYLLT eu hunain!

Beth am gynnal arwerthiant o'ch hoff ryseitiau, cynnal cwis pobi GWYLLT gyda chyfraniad am gymryd rhan, neu ar gyfer pob cacen fach sy'n cael ei bwyta, rhowch gyfraniad yn y tun!



### BOD YN WYLLT, BETH BYNNAG SY'N GWEITHIO I CHI

Does dim rhaid i chi ymgymryd â her neu weithgaredd codi arian traddodiadol - gorau po wylltaf! Gall pob un ohonom ni gael effaith gadarnhaol a hyrwyddo newid ar gyfer bywyd gwyllt wrth gael hwyl a gwneud rhywbeth rydyn ni'n ei fwynhau.

Felly, ewch amdani, byddwch yn WYLLT dros fywyd gwyllt!

/WildlifeTrustSouthandWestWales
@WTSWW
@wildlifetrustsww




LYNNE NEWTON

# UN NOD, UN DYFODOL GWYLLT

**Cyfle i gwrdd â'r ieuenctid sy'n sicrhau dyfodol ffyniannus i fywyd gwyllt Cymru**






## Imogen

Dewch i gwrdd ag Imogen, 10 oed, anturiaethwr, cerddor a naturiaethwr brwd. Mae Imogen yn angerddol am hyrwyddo newid ar gyfer y bywyd gwyllt ar garreg ei drws.

Drwy gyfuno ei chariad at gerddoriaeth a bywyd gwyllt, cynhaliodd Imogen gyngerdd GWYLLT ar gyfer ei theulu, gan chwarae'r piano a'r clarinét, i godi arian ar gyfer Gwarchodfa Natur Ynys Sgomer. Ymunodd ei mam, sydd hefyd yn chwarae'r delyn, â hi. Hawliodd Elin ac Imogen y llwyfan i godi arian ar gyfer Sgomer a'i bywyd gwyllt.

*"Fe wnes i fwynhau bod yn Godwr Arian GWYLLT oherwydd rydw i wrth fy modd yn chwarae fy offerynnau a gall fod o fudd i fywyd gwyllt at Sgomer ar yr un pryd." – Imogen*

## Mattie & Elliot

Mae Mattie ac Elliot wrth eu bodd yn archwilio arfordir Cymru ac maent yn angerddol am warchod ein cefnforoedd. Yn ddiweddar fe wnaethant ymuno â'n Fforwm Ieuenctid Moroedd Byw ac ymgymryd â thaith gerdded 60 milltir ar draws Llwybr Arfordir Ceredigion i godi arian i'r ymddiriedolaeth.

Nid yn unig y gwnaethant gerdded 60 milltir ar draws llwybr yr arfordir, ond casglodd Mattie ac Elliot sbwriel bob cam o'r ffordd, yn ogystal â chofnodi unrhyw fywyd gwyllt roeddent yn ei weld.

*"Fy hoff beth i am y daith gerdded oedd y bywyd gwyllt welson ni ar hyd y ffordd – cymylau o löynnod byw Gweirlöyn y Perthi, dolffiniaid a llo, morloi, gwiberod ifanc, yr Hebog Tramor yn uchel uwch ein pen, y Sglefrod Môr Casgen a chymaint mwy! Byddaf yn ei chofio am byth." – Mattie*



*"Mae llawer o bobl wedi bod yn taflu sbwriel ac mae'n fy ngwneud i'n drist ond yn hapus ein bod wedi dod o hyd iddo cyn iddo frifo unrhyw fywyd gwyllt." – Elliot*

# EICH STRAEON CHI

**Cyfle i gyfarfod y bobl sy'n mynd yr ail filltir i ddiogelu bywyd a llefydd gwyllt.**

ALEXANDER MUSTARD/2020VISION

Rydyn ni'n rhyfeddu at yr heriau codi arian epig rydyn ni'n eu gweld bob blwyddyn, ac mae eich gwaith caled chi'n ein helpu ni i ddiogelu bywyd gwyllt ar gyfer y dyfodol.

Ers y 1970au, mae bywyd gwyllt yn fyd-eang wedi dirywio mwy na hanner ac yma yng Nghymru, mae bywyd gwyllt yn diflannu o lefydd lle roedd yn ffynnu ar un adeg. Ond, gallwn newid pethau a gweithredu gyda'n gilydd i atal colli bioamrywiaeth. Mae gweithredu nawr yn hollbwysig a gyda phob ceiniog sy'n cael ei chodi, mae codwyr arian GWYLLT (sef chi!) yn ein helpu ni i sicrhau bod dyfodol i fywyd gwyllt Cymru.



## 1000 o neidiau pogo dros fywyd gwyllt

Mae Jacob, sy'n un ar ddeg oed, wedi bod yn angerddol dros fywyd gwyllt erioed. Er mwyn dangos y gallwn wneud gwahaniaeth, penderfynodd wneud 1000 o neidiau pogo y dydd, am ddeg diwrnod. Cododd Jacob bron i £300 i helpu bywyd gwyllt yng Nghymru.

*"Rydyn ni i gyd yn byw ar y ddaear a'n cyfrifoldeb ni yw cadw ein bywyd gwyllt yn ddiogel ac yn iach. Mae Cymru yn lle hardd iawn ac rydyn ni'n wirioneddol lwcus i gael bywyd gwyllt mor wych yma, ac rydw i eisiau helpu i'w gadw felly"*



## Miliwn o gamau dros fywyd gwyllt Cymru

Mae Rebecca Dix wrth ei bodd yn cerdded ac anturio ar hyd arfordir Cymru, ac yn ystod cyfnod clo'r pandemig, fe fanteisiodd Rebecca i'r eithaf ar ein gwarchodfeydd natur. Cododd Rebecca bron i £400 i sicrhau bod ein gwarchodfeydd ni yma am flynyddoedd i ddod.

*"Mae mynd allan am dro yn y parciau cenedlaethol, ar hyd y llwybrau arfordirol ac yn awyr agored ysblennydd Cymru wedi fy nghadw i'n gall y llynedd felly mae'n gwneud synnwyr perffaith i geisio rhoi yn ôl i'r union beth sydd wedi rhoi hwb i mi dros y flwyddyn ddiwethaf."*

## TRIïo am 30 x 30

Mae Madison yn ecolegydd ymddygiadol a naturiaethwr sydd wedi ymrwymo ei bywyd i ddeall a chyfathrebu ffyrdd rhyfedd a rhyfeddol y byd naturiol, yn ogystal â'i warchod.

Er mwyn dangos bod llawer o ffyrdd y gallwn helpu natur i adfer, cymerodd Madison ran mewn triathlon sbrint. Cododd Madison bron i £700 i helpu i ddiogelu a chysylltu 30% o'r tir a'r moroedd yng Nghymru.



*"Mae'r blynyddoedd nesaf yma'n hanfodol o ran adferiad byd natur a rhaid i ni gefnogi cymaint o ymdrechion â phosibl i dynnu sylw nid yn unig at yr angen brys am weithredu, ond i roi lle blaenllaw iddo wrth wneud penderfyniadau. Mae llawer o ffyrdd y gallwn ni helpu fel unigolion, grwpiau a busnesau, i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng bioamrywiaeth a hinsawdd ac ar yr un pryd ei roi wrth wraidd ein penderfyniadau ein hunain." – Madison*


ANDY ROUSE/2020VISION

# CERDDED GWYLLT

**Mae eich heriau codi arian yn cefnogi ein gwaith cadwraeth hanfodol**

Fel elusen, rydyn ni'n dibynnu ar gefnogaeth drwy'r rhai sydd mor angerddol â ni am fywyd gwyllt. Mae eich rhoddion nid yn unig yn ein helpu ni i ddiogelu Gwarchodfeydd Natur, cynnal ymchwil gwerthfawr, dylanwadu ar bolisi cadwraeth bywyd gwyllt, a sicrhau prosiectau tymor hir i ddiogelu bywyd gwyllt a chynefinoedd brodorol bregus, ond hefyd mae'n ein helpu i gynyddu cefnogaeth y cyhoedd i gadwraeth bywyd gwyllt yng Nghymru a gweithio gyda gwirfoddolwyr i ddysgu sgiliau cadwraeth gwerthfawr i sicrhau dyfodol cadwraethwyr.

Yn yr ymddiriedolaeth, mae gennym sawl prosiect ymchwil, cadwraeth ac ailgyflwyno hirsefydlog sy'n gofyn am roddion cyson i sicrhau eu dyfodol.

## BETH MAE EICH ARIAN YN EI GEFNOGI


EMYR EVANS

### Dod â bywyd gwyllt yn ôl

Mae eich cefnogaeth drwy godi arian yn caniatáu i ni weithio i ailgyflwyno a gwarchod bywyd gwyllt brodorol bregus, gan gynnwys afancod Ewrasiaidd, gwiwerod coch, llygod pengrwn y dŵr a glöyn byw Britheg y Gors.

### Sicrhau mwy o Warchodfeydd Natur

Mae pob ceiniog sy'n cael ei chodi'n cefnogi prynu mwy o fannau gwyllt yng Nghymru. Rydym yn berchen ar amrywiaeth o Warchodfeydd Natur ac yn eu rheoli, ac mae pob un ohonynt yn gartref i fflora a ffawna prin. Mae eich cefnogaeth yn ein helpu ni i'w cadw felly.

### Cadwraeth ar y tir

Mae rhoddion yn galluogi i ni barhau i weithio gyda pherchnogion tir i gynghori ar reoli eu tir ar gyfer bywyd gwyllt, ymgymryd â rheolaeth yn ein gwarchodfeydd ac ymgyrchu a gweithredu dros well polisïau bywyd gwyllt.

### Sicrhau ynysoedd gwyllt

Mae eich gweithredoedd hael dros fywyd gwyllt yn sicrhau bod ein hynysoedd gwyllt yn aros yn wyllt, ac y gallwn barhau i weithio gyda phartneriaid i gynnal ymchwil gwerthfawr. Gyda'i gilydd, mae Sgomer a Skokholm yn gartref i'r boblogaeth fwyaf o Adar Drycin Manaw yn y byd, mae Sgomer yn gartref i lygoden bengron enwog Sgomer, poblogaethau o forloi llwyd, ac wrth gwrs, y boblogaeth fawr o balod Atlantaidd sy'n ennill calonnau pawb. Mae Ynysoedd Sgomer a Skokholm yn ynysoedd arbennig, ac mae angen ein cefnogaeth barhaus ni ar y ddwy ohonyn nhw.


MADISON BOWDEN-PARRY

### Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf

Yn ogystal â chadwraeth ac ymchwil ymarferol, mae eich cefnogaeth yn galluogi i ni barhau i addysgu ac ysbrydoli pobl i ofalu am fywyd gwyllt Cymru. Mae rhoddion yn sicrhau y gallwn ni gynnal cyrsiau hyfforddi, cynnal digwyddiadau bywyd gwyllt a gweithio mewn ardaloedd gwledig a threfol yn Ne a Gorllewin Cymru i helpu i greu dyfodol i fywyd gwyllt

**Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru**
**Wildlife Trust of South & West Wales**

# Dod yn #GodwrArianGWYLLT ac yn rhan o'n #TîmGwyllt

Mae'r wyddoniaeth yn dangos, os bydd dim ond un person ym mhob pedwar (25%) yn cymryd camau dros fyd natur, gall hyn fod yn ddigon i newid meddyliau ac ymddygiad y mwyafrif.

Gyda'ch help chi, gallwn ddechrau adfer byd natur, creu mwy o le i fywyd gwyllt ffynnu a lleihau'r pwysau ar yr amgylchedd.

Gyda'n gilydd, rydym yn cymryd camau i helpu bywyd gwyllt a llefydd gwyllt yn ne a gorllewin Cymru. Gyda'n gilydd, ni yw #TîmGwyllt.

## Creu de a gorllewin Cymru WYLLTACH

Bydd gweithredu dros natur, dim ond ar raddfa fechan, yn cael effaith ac yn gwahodd mwy o fywyd gwyllt yn ôl i'n bywydau ni.

Dod yn #GodwrArianGWYLLT. Ymunwch â'r #TîmGwyllt.

## Neges gan ein Prif Weithredwr Sarah Kessell



*Rydym yn cynyddu ein huchelgais ar gyfer adferiad natur ar draws de a gorllewin Cymru yn wyneb yr argyfyngau hinsawdd ac ecolegol sy'n dyfnhau.*

*Mae ein gwaith yn fwy angenrheidiol nag erioed ac mae mwy o frys iddo. Fel elusen bywyd gwyllt ac amgylcheddol leol rydym yn dibynnu ar ein haelodau a'n cefnogwyr i helpu i ariannu ein gwaith. Mae ein #codwyrarianGWYLLT wedi ariannu cymaint o waith anhygoel i fywyd gwyllt eisoes ac wedi cael llawer o hwyl ar yr un pryd, felly rwy'n gobeithio y byddwch yn ymuno â'n teulu codi arian GWYLLT.*



LUKE MASSEY/2020VISION

# MAE BYWYD GWYLLT CYMRU EICH ANGEN CHI

DIOLCH I CHI AM YMUNO Â NI A HYRWYDDO NEWID DROS NATUR

Ymddiriedolaeth Natur
**De a Gorllewin Cymru**
Wildlife Trust of
**South & West Wales**

## Become a #WILDFundraiser

**www.welshwildlife.org**

/WildlifeTrustSouthandWestWales
@WTSWW
@wildlifetrustsww